OFFERYNNAU STATUDOL

**2002 Rhif (Cy. )**

**amaethyddiaeth, LLOEGR A cHymru**

# Gorchymyn y Bwrdd Marchnata Llaeth (Ei Ddiddymu) 2002

*Wedi'i wneud 2002*

*Yn dod i rym 31 Ionawr 2002*

Gan fod y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ("y Gweinidog") a Chynulliad Cenedlaethol Cymru -

a. wedi’u bodloni bod y Bwrdd Marchnata Llaeth ("y Bwrdd") wedi cyflawni’r holl swyddogaethau a oedd ar ôl iddo’u cyflawni, fel y’u nodir yn rheoliad 4(1) o Reoliadau’r Bwrdd Marchnata Llaeth (Swyddogaethau Gweddilliol) 1994();

b. wedi cael hysbysiad oddi wrth y Bwrdd ei fod wedi dirwyn ei faterion i ben; ac

c. wedi ymgynghori â’r Bwrdd;

yn awr felly mae’r Gweinidog a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yn gweithredu ar y cyd (a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu mewn perthynas â Chymru yn unig), yn unol â gofynion adran 14(5) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1993(), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol -

## Teitl a chychwyn

1. Teitl y Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Bwrdd Marchnata Llaeth (Ei Ddiddymu) 2002, a daw i rym ar 31 Ionawr 2002.

## Diddymu’r Bwrdd Marchnata Llaeth

2. Ar 31 Ionawr 2002 caiff y Bwrdd Marchnata Llaeth ei ddiddymu.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

2002

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

2002

Is-Ysgrifennydd Seneddol,

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Yn unol ag adran 14(5) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1993 ("y Ddeddf"), mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r Bwrdd Marchnata Llaeth ("y Bwrdd"). Daw'r Gorchymyn i rym ar 31 Ionawr 2002.

Cafodd y Bwrdd ei gyfansoddi gan Ran II o'r Atodlen i Orchymyn y Cynllun Marchnata Llaeth (Ei Gymeradwyo), 1933 (S.R. & O. 1933/789, a ddiwygiwyd gan S.R. & O. 1936/767, 1937/228, 744, 1939/324 ac O.S. 1950/1029, 1955/946, 1969/1812, 1977/900, 1979/249, 1981/323, 864, 1984/1330, 1988/83, 1987/735, 1988/132, 1992/3142, i weinyddu'r Cynllun Marchnata Llaeth 1933 ("y Cynllun") a gymeradwywyd o dan y Gorchymyn 1933 a enwyd. Cafodd y Cynllun ei ddiddymu o dan adran 1 o'r Ddeddf, fel y'i darllenir gyda Gorchymyn y Cynllun Marchnata Llaeth (Amnewid Dyddiad ei Ddiddymu) 1994 (O.S. 1994/282) a Gorchymyn y Cynllun Marchnata Llaeth (Ardystio'i Ddiddymu) 1994 (O.S. 1994/2921).

Yn rhinwedd adran 13 o'r Ddeddf, ni farnwyd bod y Bwrdd wedi'i ddiddymu am fod y Cynllun wedi'i ddiddymu ond, yn ychwanegol at Reoliadau'r Bwrdd Marchnata Llaeth (Swyddogaethau Gweddilliol) 1994 (O.S. 1994/2759) a wnaed o dan adrannau 14 a 62 o'r Ddeddf, cafodd ei gadw ar ffurf weddilliol ynghyd â hynny o'r Cynllun ag a oedd yn ymwneud â dirwyn y Bwrdd i ben hyd nes iddo gael ei

ddiddymu drwy orchymyn o dan adran 14(5) o'r Ddeddf.

Erbyn hyn mae’r Bwrdd gweddilliol wedi cyflawni’r swyddogaethau a oedd yn dal ar ôl iddo’u cyflawni (sef swyddogaethau a gyfyngid i’r rhai a nodwyd yn Rheoliadau’r Bwrdd Marchnata Llaeth (Swyddogaethau Gweddilliol) 1994), ac mae wedi rhoi hysbysiad i’r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei fod wedi dirwyn ei faterion i ben.